Heddlu Police
DYFED-POWYS

Adroddiad Iaith Blynyddol

2018 – 2019

Cyflwyniad

Fel heddlu, rydym wedi croesawu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac yn y cymunedau yr ydym yn gwasanaethu ynddynt, ac yn parhau i wneud. Mae'n hollbwysig fod aelodau o'r cyhoedd yn medru cael mynediad i'n gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg o ddydd i ddydd. Rydym yn helpu'r holl swyddogion ac aelodau staff cymaint ag y medrwn i wneud yn siŵr bod cymorth yn cael ei dderbyn yn hawdd er mwyn sicrhau ein bod ni'n medru darparu gwasanaeth o safon uchel i bob cymuned yn Nyfed-Powys.

Mae Safonau'r Gymraeg, a gafodd eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 150(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, wedi eu gweithredu gan Heddlu Dyfed-Powys ers 30 Mawrth 2017. Fe'u crëwyd er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae dwy iaith yn cael eu hadnabod yn gyfreithiol yng Nghymru, ac mae hyn yn cael ei gydnabod yn ein darpariaeth gwasanaeth: **Dwy Iaith - Dau Ddewis!**

Crëwyd yr adroddiad blynyddol hwn er mwyn crynhoi'r gwaith sydd wedi'i wneud o ganlyniad i weithredu Safonau'r Gymraeg. Mae copi o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Heddlu Dyfed-Powys ac ym mhob derbynfa sydd ar agor i'r cyhoedd.

Cynnwys

1. **Cyflawniadau……..... 4**
2. **Cyrsiau Cymraeg…….....…….…….. 10**
3. **Swyddi Gwag...……..……..... 13**
4. **Gallu Swyddogion a Staff o ran y Gymraeg ……..…..……..13**
5. **Cyrsiau Hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg ……...…… 14**
6. **Anfodlonrwydd …...……..…. 15**

1. Cyflawniadau

Mawrth Mawr

O ganlyniad i'r holl waith a gyflawnwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, bellach, mae'r heddlu'n gwbl ymwybodol o'i ofynion o dan Safonau'r Gymraeg. Eleni, penderfynom ddathlu Dydd Gŵyl Dewi drwy ymgyrch allanol drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt drwy gyfrwng y Gymraeg.

https://twitter.com/DyfedPowys/status/1101469995463331841?s=20

Dangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol yn y Gymraeg

Mae'n bwysig bod gweithlu Heddlu Dyfed-Powys yn cynrychioli'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu. Fel heddlu, rydyn ni'n falch iawn o'n hunaniaeth Gymreig, ac eisiau annog swyddogion a staff i gefnogi'n holl breswylwyr. Credwn ei fod yn bwysig iawn bod ein swyddogion a'n staff yn medru dangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol yn y

Gymraeg i'n preswylwyr ac i'w gilydd. Er mwyn sicrhau hyn, mae'r heddlu wedi ymrwymo i gael gweithlu lle mae pawb yn siarad Cymraeg hyd lefel 1 o leiaf.

I'n helpu i gyflawni hyn, ers mis Ebrill 2019, mae pob proffil rôl newydd ar gyfer swyddogion a staff yn dweud bod yn rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus gyfathrebu yn Gymraeg hyd lefel 1 o leiaf, neu fod yn barod i gyflawni hyn o fewn 6 mis ar ôl cael eu penodi.

Bydd swyddogion a staff sydd eisoes yn cael eu cyflogi gennym ac sydd heb unrhyw allu o ran y Gymraeg yn cael eu cefnogi i gyrraedd lefel 1 dros gyfnod o 12 mis.

Cefnogi ffyrdd amrywiol o ddysgu
Mae'r heddlu'n cydnabod bod pobl yn dysgu drwy ffyrdd gwahanol ac ar gyflymderau gwahanol, felly rydyn ni wedi trefnu nifer o ffyrdd gwahanol ar gyfer helpu pobl i ddysgu a chyrraedd y safon hon. Mae'r rhain yn cynnwys trefnu cyrsiau mewnol, galluogi swyddogion a staff i ddysgu drwy gyrsiau ar-lein, a chefnogi'r rhai sydd eisiau cymryd rhan mewn cyrsiau o fewn eu cymunedau.

Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
Yn ystod digwyddiadau cynefino, mae swyddogion a staff newydd yn derbyn cyflwyniad i godi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Yn y cyflwyniad hwn, maen nhw'n cael gwybodaeth am ddiwylliant Cymru, y ffigurau ar gyfer cynrychiolaeth o'r Gymraeg yn y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu, a sut y byddwn yn darparu gwasanaeth o'r safon uchaf i'n cymunedau yn eu dewis iaith.

Adnoddau er mwyn helpu swyddogion a staff
Maen nhw hefyd yn derbyn adnoddau a fydd yn eu cynorthwyo i gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg. Mae'r adnoddau'n cynnwys llyfryn manwl sy'n rhoi eglurhad pellach ynglŷn â'r Safonau. Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys disgrifiadau manwl o'r Safonau, ynghyd â thempledi defnyddiol er mwyn cynorthwyo swyddogion a staff â hysbysiadau 'allan o'r swyddfa', llofnodion e-bost ac ati. Rydyn ni hefyd yn

Teitl y Digwyddiad	Dyddiad y Digwyddiad
Mewnbwn Ymwybyddiaeth ar gyfer y Gymdeithas Heddlu Croenddu	Ebrill 2018
Mewnbwn Ymwybyddiaeth ar gyfer Trosglwyddedigion	Mehefin 2018
Cwrs Cynefino ar gyfer Staff Newydd	Awst 2018
Cwrs Cynefino ar gyfer Staff Newydd	Tachwedd 2018
Mewnbwn Ymwybyddiaeth	Chwefror 2019

sicrhau bod ein hadnodd ‘rhestr wirio pen desg’ ar gael i bawb. Mae’r adnodd bach defnyddiol hwn yn ganllaw sydyn sy’n cynnwys yr holl dempledi sydd eu hangen o ganlyniad i Safonau’r Gymraeg, manylion ynghylch sut i ddefnyddio’r Uned Gyfieithu, pethau i’w hystyried wrth drefnu cyfarfod, ateb galwad ffôn ac ati. Rydyn ni hefyd yn sicrhau bod gan bawb fathodyn “dwi’n dysgu/siarad Cymraeg” mewn man amlwg ar eu lifrai.

‘Cynllun i wreiddio’r Gymraeg o fewn plismona o ddydd i ddydd’
Er mwyn dathlu ‘Diwrnod Shwmae/Sumae’ ar 15 Hydref 2018, cyhoeddom ein Strategaeth Gymraeg tair blynedd, ‘Cynllun i wreiddio’r Gymraeg o fewn plismona o ddydd i ddydd’. Mae’r strategaeth yn ddogfen ar y cyd â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Nod y strategaeth yw sicrhau ein bod ni’n datblygu gweithlu sy’n cynrychioli’n cymunedau drwy weithredoedd gwahanol. Mae’n gosod amserlen glir a chynllun i ni fod yn atebol iddo.

Mae’r strategaeth yn cael ei monitro yn ystod cyfarfodydd ‘Yr Iaith Ar Waith’, sy’n cael eu cynnal ar sail chwarterol.

Mae copi o’n Strategaeth Iaith ar gael i’w darllen ar wefan Heddlu Dyfed-Powys.

Eisteddfod yr Urdd

Cafodd yr Heddlu wythnos wych yn yr Eisteddfod yn Llanfair-ym-Muallt ym mis Mai 2018. Cynhaliwyd digwyddiadau amrywiol megis ‘Caffi Barddoniaeth’ gydag Eurig Salisbury a ‘Cracio’r Cod’ gyda chriw Tarian, a chafodd rai gyfle i fynd i’r afael â’u hofnau gydag adran gŵn yr Heddlu.

Bardd yr Heddlu
Roedd bardd yr heddlu, Mr Eurig Salisbury, wrth law i gynnig Caffi Barddoniaeth ar stondin yr Heddlu yn yr Eisteddfod yn Llanfair-ym-Muallt. Yn ystod y digwyddiad, roedd Eurig yn medru ysgrifennu penillion personol byr i ymwelwyr yn y fan a'r lle. Hefyd, fel rhan o ddathliadau hanner can mlwyddiant yr Heddlu, ysgrifennodd Eurig gerdd i nodi'r digwyddiad.

Er mwyn dathlu lansiad ein Strategaeth Iaith, cynhaliom gystadleuaeth limrig o fewn yr heddlu hefyd. Crëwyd dwy linell gyntaf y limrig gan fardd yr heddlu, Mr Eurig Salisbury, a rhoddwyd y dasg o lunio'r tair llinell olaf i swyddogion a staff yr heddlu.

Enillydd y gystadleuaeth oedd Mair Harries. Mair yw Swyddog Cymorth Gweithredol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Fe welais un nos ar y teli
Dyn tywydd yn dweud wrth grechwenu:
"Fydd Nadolig yn wyn
Ac os credwch chi hyn
Wel, ffrindiau, chi wedi gwallgofi."

Gwobrau'r Heddlu
Mae Seremoni Wobrwyo Heddlu Dyfed-Powys yn gyfle i ddathlu staff, swyddogion a gwirfoddolwyr yr heddlu. Un o'r gwobrau a gyflwynwyd oedd y wobr ar gyfer 'Dysgwr y Flwyddyn'. Eleni, cyflwynwyd y wobr i Eddie Donnelly, sy'n aelod o'r Tîm Prosesau Traffig.

Gan sôn am ei wobr, dywedodd Eddie, "*Cefais syn fy mod i wedi ennill y wobr hon. Roeddwn i'n credu fy mod i wedi ennill y wobr am y presenoldeb gorau. Er fy mod i wedi ennill y wobr ar gyfer dysgwr y flwyddyn, cofiwch fod llawer mwy gen i i'w ddysgu er fy mod i eisoes wedi dysgu llawer. Mae fy ngeirfa wedi cynyddu ac rwy'n medru dilyn rhai sgyrsiau yn y swyddfa, ond rwy'n dal i ddysgu a dydw i ddim yn rhugl. Y peth anoddaf nawr yw ceisio siarad Cymraeg gyda phobl eraill. Mae fy nghof yn pallu pan mae pobl yn gofyn rhywbeth i mi yn Gymraeg. Dydw i ddim yn gwybod sut i'w hateb, felly byddwch yn amyneddgar. Mae angen i mi ymarfer yr hyn rwyf wedi dysgu, felly os welwch chi fi, ceisiwch gychwyn sgwrs gyda mi. Siaradwch yn*

araf, byddwch yn amyneddgar, a gyda bach o lwc, byddaf yn eich ateb! Dim byd caled i ddechrau!"

Mae'r heddlu wedi derbyn pob cyfle i fynd i ddigwyddiadau a drefnwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg er mwyn gwella ein gwasanaethau. Ym mis Tachwedd, aethom i 'Seminar Arfer Da' y swyddfa yng Nghaerdydd. Galluogodd y digwyddiad hwn i ni glywed am waith da sy'n digwydd ar draws Cymru a chyflwyno syniadau newydd i'r heddlu. Hefyd yr wythnos honno, aethom i'w 'Gweithdy Safonau' yn Abertawe. Roedd y gweithdy hwn yn fuddiol iawn, a rhoddodd wybodaeth werthfawr i ni am greu polisïau mewnol.

Ym mis Rhagfyr, cawsom gyfle hefyd i gwrdd â chynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg er mwyn trafod perfformiad yr heddlu. Galluogodd y cyfarfod hwn i ni roi diweddariad ynglŷn â'n perfformiad a thrafod unrhyw anawsterau yr oeddem yn eu hwynebu.

Adnoddau

Mae'r holl adnoddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar gael ar ddyfeisiau llaw swyddogion ac ar fewnrwyd yr heddlu. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gan yr holl swyddogion ac aelodau staff fynediad i'r adnoddau bob amser. Crëwyd adnodd ychwanegol yn arbennig ar gyfer y fewnrwyd, sef 'map geiriau'. Rhestr o eiriau, enwau a thermau, o deitlau rhengoedd i deitlau lleoliadau, a chwestiynau cyffredin, yw'r 'map geiriau'. Rydym hefyd wedi atodi ffeil sain i'r geiriau er mwyn helpu staff sydd ddim yn siarad Cymraeg i ymarfer ynganu'r geiriau.

2. Cyrsiau Cymraeg

Yn 2017, cyhoeddodd yr heddlu ei bolisi newydd ar gyfer gwersi Cymraeg, lle nodir ymrwymiad yr heddlu i hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd ar gyfer dysgu Cymraeg. Mae'r polisi'n nodi'r gefnogaeth sydd ar gael i staff a swyddogion ar gyfer dysgu gwella eu Cymraeg.

Mae’r heddlu wedi parhau i sicrhau bod gwersi Cymraeg yn cael eu cynnig a’u cefnogi. Yn 2018-2019, trefnwyd cyrsiau ar gyfer dechreuwyr a chyrsiau canolradd ar gyfer swyddogion a staff.

Rydyn ni hefyd yn medru trefnu cyrsiau penodol ar gyfer adrannau ar gais. Eleni, trefnom gwrs penodol ar gyfer Canolfan Gyfathrebu’r Heddlu, a sicrhaodd fod holl aelodau staff y Ganolfan Gyfathrebu’n teimlo’n gyfforddus wrth ateb y ffôn yn ddwyieithog ac wrth ynganu enwau lleoedd yng Nghymru. Yn ogystal, rydyn ni wedi trefnu cwrs dechreuwyr penodol ar gyfer swyddogion a staff ym Mhowys gan nad oes gan 24% o swyddogion a staff ym Mhowys unrhyw allu o ran y Gymraeg. Ein nod yw lleihau’r ffigwr hwn a chynyddu gallu o ran y Gymraeg o fewn yr ardal.

Eleni eto, mae’r heddlu wedi cydweithio â darparwyr cyrsiau Cymraeg preswyl yn Nant Gwrtheyrn, a gyflwynodd gwrs yn arbennig ar gyfer staff a swyddogion Heddlu Dyfed-Powys. Roedd y cwrs yn cynnwys gweithdai e-bostio, cyfweld, cyflwyno a llawer mwy. Rhoddwyd cyfle i staff a swyddogion ymarfer y rhain a’r tasgau beunyddiol y maent yn awr yn eu cyflawni yn Gymraeg er mwyn cefnogi Safonau’r Gymraeg. Hefyd, roedd yn gyfle iddynt ofyn unrhyw gwestiynau neu ymholiadau a oedd ganddynt i’r tiwtoriaid a oedd yn bresennol.

Oherwydd llwyddiant y cyrsiau hyn, ac adborth cadarnhaol, rydyn ni eisoes wedi dechrau trefnu dau gwrs newydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yn ogystal â hyn, mae'r heddlu wedi rhoi cyfle i staff a swyddogion fynychu cyrsiau Cymraeg yn eu cymunedau os na fydd modd iddynt fynd i gyrsiau a gynhelir gan yr heddlu yn y Pencadlys am wahanol resymau, h.y. materion trafnidiaeth / patrymau sifft.

Rydyn ni wedi dechrau trefnu cwrs Cymraeg eleni ar gyfer Pencadlys yr Heddlu yn barod. Cwrs dechreuwyr 20 wythnos o hyd ar gyfer swyddogion a staff fydd hwn, er mwyn cynyddu hyder a gallu unigolion i ddefnyddio’r iaith.

Mae’r Prif Gwnstabl, Mr Mark Collins, wedi bod yn cymryd rhan mewn gwersi Cymraeg wythnosol. Bydd y Prif Gwnstabl yn derbyn tystysgrif yn y Gymraeg cyn hir.

Cyrsiau Cymraeg

1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019

Cyrsiau	Y nifer a oedd yn bresennol
Cwrs Dechreuwyr Powys	11
Cwrs Dechreuwyr yr Heddlu	11
Cwrs Canolradd yr Heddlu	16
Dysgu Cymraeg - Nant Gwrtheyrn	11
Gwersi Cymunedol	6
Cwrs Ar-lein	94
Cwrs Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu	7
8 sesiwn hyfforddi un i un sy'n canolbwyntio ar gyfweliadau	1 Ditectif Uwch-arolygydd Dros Dro
Cyfanswm	**157**

3. Swyddi Gwag

1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019

Categori	Nifer y Swyddi Gwag
Roedd y Gymraeg yn hanfodol	20
Roedd y Gymraeg yn ddymunol	139
Roedd angen dysgu Cymraeg ar ôl cael eu penodi i'r swydd	0
Nid oedd y Gymraeg yn ofynnol	0

Mae'r data uchod wedi dyddio braidd o ganlyniad i'r ffaith bod y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer pob swydd a hysbysebir ers 1 Ebrill 2019. Gan hynny, bydd y ffigurau'n gwella'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Yn ogystal, cynhaliwyd trafodaethau ynghylch creu canllawiau i reolwyr ddilyn wrth benderfynu ar y lefel gallu sydd angen ar aelod staff newydd o ran y Gymraeg wrth gael ei benodi, gan ddibynnu ar y rôl benodol.

4. Gallu Swyddogion a Staff o ran y Gymraeg

Lefel	Mai 2016 Darllen a Deall	Mai 2017 Darllen a Deall	Mai 2018 Darllen a Deall	Mehefin 2019 Darllen a Deall
Lefel 0	355	352	322	277
Lefel 1	449	537	557	600
Lefel 2	414	425	400	406
Lefel 3	204	233	236	240
Lefel 4	163	203	191	191
Lefel 5	271	276	253	240
Heb ddatgan	122	285	112	92
Cyfanswm	**1978**	**2311**	**2071**	**2046**

Fel y dangosir gan y data uchod, mae nifer y swyddogion ac aelodau staff sydd heb unrhyw allu o ran y Gymraeg wedi gostwng o ganlyniad i gynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael i unigolion fynychu cyrsiau Cymraeg a gynhelir gan yr heddlu, yn ogystal â'r dewis i fynd i gyrsiau yn y gymuned. Rhagwelir y bydd nifer y swyddogion ac aelodau staff sydd heb unrhyw allu o ran y Gymraeg yn parhau i ostwng wrth i nifer y cyrsiau Cymraeg a drefnir gynyddu.

Mae nifer y swyddogion ac aelodau staff sydd ar lefel 1-4 hefyd wedi cynyddu; mae hyn yn ymwneud â'r ffaith bod mwy o unigolion eisiau dysgu Cymraeg ac yn mynychu cyrsiau Cymraeg amrywiol, a thrwy hyn, yn fwy hyderus i symud ymlaen at lefelau uwch.

5. Cyrsiau hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg

Fel heddlu, rydym yn ymdrechu i gyflwyno mwy o gyrsiau hyfforddi ar gyfer ein staff a'n swyddogion drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae pecyn cynefino'r heddlu ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cyrsiau isod hefyd ar gael yn Gymraeg ar gais. Yn y dyfodol, gobeithiwn gynyddu nifer y cyrsiau a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg fel bod modd i'n staff a'n swyddogion gwblhau cymaint o'u hyfforddiant ag sy'n bosibl yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.

Teitl y Cwrs	Nifer y staff / swyddogion a fynychodd y cwrs
Rheoli Perfformiad a Phresenoldeb (Cyfrwng Cymraeg)	0
Recriwtio a Dethol (Cyfrwng Cymraeg)	0
Hyfforddiant ar gyfer Llunio Rhestr Fer adeg Recriwtio	0
Hyfforddiant ar gyfer Cyfweld adeg Recriwtio	0

6. Anfodlonrwydd

Isod, ceir cofnod o'r pedair cwyn a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

Cwyn:
Gwnaed cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â methiant tybiedig gan Heddlu Dyfed-Powys i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae'r achwynydd yn dweud ei fod wedi ffonio llinell Gymraeg cwmni DriveTech ond heb gael ateb. Yna, ffoniodd yr achwynydd y llinell Saesneg, ac atebwyd yr alwad yn syth. Mae cwmni DriveTech yn cyflwyno gwasanaeth ar ran Heddlu Dyfed-Powys.

Datrysiad :
Penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg bod Heddlu Dyfed-Powys wedi methu â chydymffurfio â Safon 13. Roedd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar y ffaith nad oedd y rhif ffôn ar gyfer y gwasanaeth Cymraeg yr un fath â'r rhif ar gyfer y gwasanaeth Saesneg cyfatebol. Rhoddwyd 6 mis i Heddlu Dyfed-Powys ddatrys y broblem. Mae'r mater wedi'i ddatrys yn awr.

Cwyn:
Gwnaed cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â methiant tybiedig gan Heddlu Dyfed-Powys i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Dywedodd yr achwynydd nad oedd dewis i ymgymryd â'r cwrs ar-lein 'Eich Gwregys – Eich Bywyd' yn Gymraeg. Cyflwynir y cwrs gan gwmni DriveTech gan eu bod nhw'n cyflenwi gwasanaeth ar ran Heddlu Dyfed-Powys.

Datrysiad:
Penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg nad oedd Heddlu Dyfed-Powys wedi methu â chydymffurfio â gofynion y Safonau.

Cwyn:
Roedd y gŵyn yn ymwneud â gohebiaeth a anfonwyd at yr achwynydd yn Saesneg yn unig. Os yw'r unigolyn yn bresennol adeg trosedd, mae'r swyddog yn gofyn am ei ddewis iaith. Fodd bynnag, pan nad yw unigolyn yn bresennol, mae'r dewis iaith

wedi'i osod i Saesneg yn awtomatig ar ddyfeisiau llaw swyddogion. Pan mae'r wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'r adran berthnasol, mae'n nodi mai Saesneg yw dewis iaith yr unigolyn. Hwn yw'r rheswm dros anfon gohebiaeth yn Saesneg yn unig. Pan mae'r wybodaeth yn cael ei hanfon at yr adran berthnasol, mae'r aelod staff yn gwirio pa un ai a oedd yr unigolyn yn bresennol adeg y drosedd. Os nad oedd yn bresennol, anfonir gohebiaeth yn ddwyieithog. Fodd bynnag, y tro hwn, ni wnaeth Heddlu Dyfed-Powys gadarnhau'r wybodaeth hon cyn anfon yr ohebiaeth. Camgymeriad dynol ydoedd, ac ymddiheurodd yr heddlu o waelod calon am hyn.

Datrysiad:
Mae'r adran TGCh wedi newid y rhagosodiadau ar ddyfeisiau llaw swyddogion er mwyn sicrhau mai 'dwyieithog' yw'r dewis iaith os nad yw'r unigolyn yn bresennol. Anfonir gohebiaeth yn ddwyieithog yn awtomatig os nad yw'r unigolyn yn bresennol yn awr. Rydyn ni hefyd wedi atgoffa staff am yr angen i anfon gohebiaeth yn ddwyieithog pan nad yw dewis iaith yr unigolyn yn hysbys. Ymddiheurodd yr Heddlu i'r achwynydd, ac anfonwyd copi Cymraeg o'r llythyr ato.

Cwyn:
'Annwyl Heddlu Dyfed-Powys,
Rwy'n siomedig iawn eich bod chi wedi hysbysebu rhywbeth ar Facebook ac wedi eithrio'ch gymuned sy'n siarad a darllen Saesneg. Does DIM cyfieithiad, ac rwy'n teimlo bod hyn yn hiliol iawn yn erbyn eich cynulleidfa Saesneg eu hiaith. Rydw i wedi byw yng ngorllewin Cymru drwy gydol fy oes ac rwy'n medru darllen Cymraeg, fodd bynnag, teimlaf ei fod yn sarhad o'r mwyaf nad ydych chi'n cynnig cyfieithiad Saesneg. Mae'n ymddangos i mi nad ydych chi eisiau i'ch cymuned Saesneg fod yn rhan o'ch ymgyrch Facebook.'

Datrysiad:
Dangosodd gwybodaeth bellach gan yr achwynydd bod eu pryderon yn ymwneud â thudalen ddigwyddiadau a grëwyd gan Heddlu Dyfed-Powys ar Facebook a oedd yn hysbysebu gweithdai a oedd yn cael eu trefnu ar draws yr ardal heddlu ar gyfer gwneud cais i fod yn gwnstabl heddlu. Dangosodd adolygiad cychwynnol o dudalen Facebook Heddlu Dyfed-Powys bod tudalen ddigwyddiadau wedi'i chreu yn Saesneg yn unig, ond roedd tudalen ddigwyddiadau hefyd wedi'i chreu ar gyfer yr un digwyddiad yn Gymraeg. Awgrymwyd wrth y tîm Cyfathrebu Corfforaethol y dylid

nodi ar dudalennau digwyddiadau bod fersiwn Saesneg/Cymraeg o'r dudalen ar gyfer y digwyddiad ar gael, a rhoi dolen ar gyfer y dudalen honno. Datrysodd hyn y camddealltwriaeth o'r pryderon a godwyd, a rhoddwyd cadarnhad i'r achwynydd o'r camau gweithredu a gymerwyd.

Gwybodaeth Bellach

Os oes angen gwybodaeth bellach arnoch mewn perthynas â'r Adroddiad Iaith Blynyddol, anfonwch e-bost at welshlanguage@dyfed-powys.pnn.police.uk.